# DISGRIFIAD SWYDD

**SWYDD:** **Arbenigwr Dysgu Cadarnhaol Board Certified Behaviour Analyst Llawn amser**

**YSTOD CYFLOG:** **PS1 (29 – 31)**

**DEILIAD SWYDD: BCBA, a MSc mewn Dadansoddi Ymddygiad Cadarnhaol**

**YN ATEBOL I:**

## PWRPAS SWYDD

O dan gyfundrefn gytunedig o oruchwyliaeth, cymryd rhan arweiniol o fewn yr ysgol mewn ymateb i anghenion disgyblion sydd angen cymorth arbennig i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Bydd yr unigolyn yn defnyddio ymyriadau yn seiliedig ar Ddadansoddi Ymddygiad Cymhwysol (Applied behaviour Analysis) er mwyn dysgu a cynyddu ymddygiadau cymdeithasol priodol a lleihau ymddygiadau cymdeithasol amrhiodol.

Cydweithio â staff yr ysgol i ddysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddisgyblion i gyrraedd eu potensial llawn a lleihau'r rhwystrau i ddysgu.
Cefnogi a gwerthuso arferion cefnogi ymddygiad cadarnhaol ledled yr ysgol.
I ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth i'r tîm technegwyr ymddygiad cofrestredig, er mwyn sicrhau bod y tîm yn cyflawni blaenoriaethau'r ysgol.
I ddarparu a chyflwyno rhaglen reolaidd o hyfforddiant ABA i'r holl staff ac yn achlysurol i rieni.
I arwain a chyflwyno hyfforddiant MAPA i holl staff yr ysgol gan fonitro gweithrediad egwyddorion MAPA yn gyson ar draws yr ysgol.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

### Cyfrifoldebau Rheoli Llinell Lle bo'n Briodol

- Darparu rheolaeth effeithlon ac effeithiol i athrawon a'r holl staff wrth iddynt ddarparu rhaglenni cymorth ymddygiad cadarnhaol, er mwyn sicrhau arfer a chysondeb rhagorol.
- Darparu rheolaeth effeithlon ac effeithiol i gefnogi athrawon, dadansoddwyr ymddygiad mewn hyfforddiant, technegwyr ymddygiad cofrestredig a myfyrwyr interniaeth, gyda datblygiad proffesiynol parhaus mewn rhaglenni cymorth ymddygiad cadarnhaol.
- Cydweithio â'r uwch dîm arweinyddiaeth i werthuso effaith darpariaeth a nodi blaenoriaethau i sicrhau gweledigaeth a rennir.
- Goruchwylio, cefnogi a mentora dadansoddwyr ymddygiad danegol, technegwyr ymddygiad cofrestredig, a myfyrwyr interniaeth.
- Cydlynu a dirprwyo tasgau o fewn y tîm ABA / tîm cymorth ymddygiad cadarnhaol.
- Sefydlu a chynnal cyfathrebu rhyngasiantaethol a rhyng-dîm.
- Cydlynu asesiadau trosglwyddo a chynhyrchu adroddiadau ar achosion unigol.
- Monitro ansawdd yr adroddiadau sy'n cael eu cynhyrchu a'u rhannu gan y tîm ABA / tîm cymorth ymddygiad cadarnhaol.

- Rheoli cymorthyddion addysgu eraill sydd wedi cymhwyso fel technegydd ymddygiad cofrestredig.
- Ymgymryd â recriwtio/anwytho/gwerthuso/hyfforddi/mentora cymorthyddion addysgu eraill.
- Cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd gyda staff a reolir.
- Cynrychioli cymorthyddion addysgu mewn cyfarfodydd staff addysgu/rheoli/ priodol arall.

**Cefnogaeth i Ddisgyblion Cyfnod Sylfaenol**

- Arwain asesiadau yn seiliedig ar VB-MAPP (Verbal Behaviour Milestones Assessment and Placement Program) ac ABLLS-R (Assessment of Basic Language and Learning Skills) er mwyn dysgu sgiliau iaith, cymdeithsaol, hunan-gymorth, academaidd ac echddygol hanfodol drwy ddulliau Hyfforddaint Profion Arwahanol (DTT).
- Y gallu i wneud DTT yn rhugl a rhoi hyfforddiant uniongyrchol i staff dosbarth.
- Ysgrifennu rhaglenni a hyfforddi staff dosbarth ar ddatblygu sgiliau Hyfforddiant Amgylchedd Naturiol (Natural Environment Training, NET).

**Cefnogaeth i Ddisgyblion Cynradd ac Uwchradd**

- Ysgrifennu cynlluniau datblygiad hunan-gymorth (e.e. toiled, bwyta, dad-wisgo, brwsho dannedd) gan ddefnyddio technegau dadansoddi ymddygiad cymhwysol e.e. Task Analysis, Active Support.
- Ysgrifennu a hyfforddi staff dosbarth ar ddilyn cynlluniau addysgiadol wedi ei selio ar ddadansoddi ymddygiad e.e. Headsprout ac Addysgu Uniongyrchol (Direct Instruction, DI).
- Gweithio gyda athrawon er mwyn ysgrifennu cynlluniau ymddygiad swyddogaethol a rhoi hyfforddiant staff dosbarth ar sut i'w dilyn.
- Hyfforddi a chynorthwyo'r staff dosbarth i ddefnyddio systemau cyfathrebu swyddogaethol e.e. PECS, PODD, Grid 3, AAC, Makaton a.y.y.b.
- Cymryd a dadansoddi data er mwyn cymryd gwaelodlin ar ymddygiad targed, ffyddlondeb at gynlluniau ymddygiad, ac ar ymyriadau sydd wedi eu gosod.
- Sefydlu perthynas weithio gynhyrchiol gyda disgyblion, a gwneud asesiad dewis ysgogiad (stimulus preferences assessment) i sefydlu pa ysgogiadau sy'n cael eu ffafrio gan fyfyriwr ar un achlysur, i'w ddefnyddio fel atgyfnerthwr i gynyddu ymddygiadau priodol.
- Gweithio gyda athrawon er mwyn creu amserlenni unigol, swyddogaethol ar gyfer dosbarth cyfan/unigolyn.
- Cyfarfod gyda rhieni er mwyn trafod cynlluniau ymddygiad, a rhoi hyfforddiant ar sut i'w dilyn.

**Cefnogaeth i'r Ysgol**

- Cydymffurfio a chynorthwyo gyda datblygu polisïau a gweithdrefnau perthynol i amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a diogeledd, cyfrinachedd ac amddiffyn data, gan adrodd am bob pryder i'r person priodol.
- Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu a datblygu.
- Mynychu cyfarfodydd rheolaidd a chymryd rhan ynddynt.
- Cyfrannu at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol.

- Adnabod hunan gryfderau a meysydd arbenigedd a defnyddio’r rhain i gynghori a chefnogi eraill.
- Bod yn gyfrifol am ddarparu gweithgareddau dysgu y tu allan i’r ysgol o fewn canllawiau a sefydlwyd gan yr ysgol.
- Cyfrannu at adnabod a gweithredu gweithgareddau dysgu priodol y tu allan i’r ysgol sy’n cadarnhau ac ymestyn gwaith yn yr ysgol.
- Sefydlu perthynas adeiladol a chyfathrebu gydag asiantaethau/proffesiynolwyr eraill, mewn cysylltiad â’r athro, i gefnogi cyflawniad a chynnydd y disgyblion.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill fel bo’r gofyn.

**Dyddiad y Cytunwyd gan y Deiliad Swydd:** ……………………………………………………

**Llofnod y Deiliad Swydd:** ……………………………………………………

# MANYLEB PERSON

## Profiad

- Profiad o weithio gyda phlant o'r oedran briodol gan ddefnyddio dulliau dadnsoddi ymddygiad cymwhysol.
- Profiad o weithio gyda disgyblion gydag anghenion ychwanegol.

## Cymwysterau

- Gradd/Gradd Meistr (MSc) mewn dadansoddi ymddygiad cymwhysol (ABA)
- Sgiliau rhif/llythrennedd ardderchog – cyfwerth ag NVQ Lefel 2 mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.
- Cyfarfod a safonau Behaviour Analyst Certification Board (BACB).

## Gwybodaeth/Sgiliau

- Gwybodaeth weithio lawn o bolisïau/côd ymarfer/côd BACB/deddfwriaeth berthnasol.
- Gwybodaeth weithio o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a rhaglenni dysgu perthnasol eraill megis VB-MAPP ac ABLLS-R.
- Deall egwyddorion datblygiad plentyn a'r broses ddysgu ac, yn arbennig, rwystrau i ddysgu.
- Y gallu i gynllunio gweithredu effeithlon ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni.
- Deall ystod y gwasanaethau/darparwyr cynhaliaeth.
- Y gallu i hunan-werthuso anghenion dysgu a cheisio cyfleoedd dysgu.
- Y gallu i berthnasu'n dda â phlant ac oedolion.
- Gweithio'n adeiladol ac yn hyblyg fel rhan o dîm, gan ddeall swyddogaethau a chyfrifoldebau dosbarth a'ch sefyllfa chi eich hun o fewn y rheiny.